Adroddiad ar

Pathways Learning

Uned 12
Parc Busnes Yr Wyddgrug
Ffordd Wrecsam
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1XP

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Pathways Learning

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Pathways Learning |
| Statws y perchennog | Cwmni cyfyngedig |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Nac oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 15 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 15 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | {Dyddiad Arolygiad Blaenorol} |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 04/02/2026 |

### Cyd-destun yr ysgol

Mae Pathways Learning yn ysgol ddydd annibynnol ar gyfer hyd at 20 o ddisgyblion rhwng 5 ac 16 oed sydd wedi cael diagnosis o gyflwr y sbectrwm awtistig (CSA).

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar barc busnes yn Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. Mae'r ysgol yn gwmni cyfyngedig, ac mae'r perchnogion hefyd yn berchen ar ddarpariaeth gwersi tiwtora ar hyn o bryd.

Mae 15 disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae gan bob disgybl anghenion dysgu ychwanegol ac mae ganddynt gynlluniau datblygu unigol sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau lleol sy'n comisiynu. Nid yw'r un o'r disgyblion wedi cael profiad o ofal.

Hwn yw arolygiad monitro cyntaf yr ysgol ers ei chofrestru. Dechreuodd y pennaeth presennol yn y swydd ym mis Tachwedd 2024 ac fe'i cefnogir gan 2 athro, Cydlynydd ADY, 4 athro rhan-amser a thri chynorthwyydd addysgu.

## Crynodeb


Mae Pathways Learning yn darparu amgylchedd dysgu digynnwrf a chroesawgar sy'n pwysleisio sicrwydd emosiynol lle mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae'r ysgol wedi rhoi ystyriaeth ofalus i feysydd dysgu lle mae disgyblion yn cymryd rhan yn dda mewn ystod o weithgareddau ystyrlon, yn cynnwys gwaith ymarferol sy'n adeiladu gwybodaeth bynciol ochr yn ochr â medrau ymholi a datrys problemau.

Mae disgyblion yn siarad yn wresog am yr ysgol ac yn dweud eu bod yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u clywed. Maent yn dangos hunan-gred cynyddol ac yn gallu gwneud dewisiadau, mynegi eu barn a chymryd cyfrifoldeb yn gynyddol. Mae gweithgareddau fel cymryd rhan yn y Cyngor Myfyrwyr a dysgu am hawliau yn helpu cryfhau hyder disgyblion a'u hymdeimlad o berthyn.

Mae cwricwlwm eang a chytbwys wedi'i bersonoli i hyrwyddo ymgysylltiad a chyflawniad disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu yn unol â Chwricwlwm i Gymru, wedi'i gefnogi gan bartneriaethau effeithiol fel dysgu yn yr awyr agored a siaradwyr gwadd. Mae disgyblion hŷn yn gweithio tuag at gymwysterau addas, yn cynnwys cymwysterau TGAU.

Mae gan staff ddealltwriaeth gref o ddisgyblion unigol ac maent yn defnyddio hyn yn effeithiol i gynllunio dysgu a darparu cymorth teilwredig. Mae disgyblion yn elwa ar ddefnyddio gwasanaethau therapiwtig arbenigol a ddarperir gan yr ysgol a gwasanaethau iechyd ehangach.

Mae dull graddol wedi'i gynllunio'n ofalus ar gyfer cyfnod pontio i'r ysgol wedi helpu gwella presenoldeb, er mae hyn yn parhau i fod yn her i nifer fach o ddisgyblion.

Mae polisïau sy'n cefnogi rhedeg yr ysgol yn bodloni gofynion deddfwriaethol ond nid ydynt yn cyfleu'n llawn yr arfer a ddatblygwyd i ddiwallu anghenion disgyblion a chyd-destun unigryw'r lleoliad.

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Prif werthusiad

Mae Pathways Learning yn ysgol anogol a chefnogol i ddisgyblion ag awtistiaeth a gorbryder sy'n blaenoriaethu lles a diogelwch emosiynol. Mae gofodau dysgu ag adnoddau da yn yr ysgol yn cynnwys ardaloedd anffurfiol i gefnogi disgyblion i hunanreoleiddio yn effeithiol. Mae'r ethos cryf hwn sy'n canolbwyntio ar y disgybl yn pwysleisio derbyniad a pharch. Mae'r ysgol yn elwa ar ystod o gymorth therapiwtig yn cynnwys therapi chwarae, lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol a seicotherapi. Mae'r ysgol yn darparu ardal fach yn yr awyr agored.

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac y gwrandewir arnynt, maent yn siarad yn gadarnhaol am eu profiadau, yn dangos balchder yn eu hysgol ac yn dangos ymreolaeth a hunaneirioli cynyddol. Mae cyfleoedd fel y Cyngor Myfyrwyr, gofalu am anifeiliaid, a thrafodaethau ynghylch eu hawliau yn cefnogi ymdeimlad disgyblion o gyfrifoldeb a pherthyn.

Mae diddordebau a dyheadau disgyblion unigol yn llywio cynllunio'r cwricwlwm. Mae addysgu yn hyblyg, wedi'i gynllunio'n dda ac wedi'i wahaniaethu'n briodol, gan alluogi disgyblion i ymgysylltu ar eu lefel eu hunain a llwyddo. Mae gweithgareddau dysgu yn ddifyr ac yn briodol i oedran; er enghraifft, mewn gwyddoniaeth a phynciau creadigol, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth bynciol ochr yn ochr â medrau ymarferol a datrys problemau.

Mae staff yn defnyddio'u gwybodaeth gref am ddisgyblion yn hynod effeithiol i gynllunio dysgu personoledig a chefnogi ymgysylltu. Mae staff yn hynod ymatebol i ddisgyblion; er enghraifft, mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn nodi'r amseroedd mwyaf priodol i ennyn diddordeb disgyblion mewn ymyriadau â ffocws ar sail eu dealltwriaeth o ymddygiad ac anghenion emosiynol disgyblion.

Mae'r cwricwlwm yn addas o eang ac yn darparu datblygiad dysgu a medrau ar draws meysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru. Caiff hyn ei gryfhau trwy bartneriaethau, er enghraifft trwy sesiynau addysg wythnosol yn yr awyr agored neu siaradwyr sy'n ymweld â'r ysgol i ddarparu cyngor ar yrfaoedd. Mae disgyblion hŷn yn gweithio tuag at ystod o wobrau a chymwysterau priodol, yn cynnwys cymwysterau TGAU.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu medrau allweddol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio offer digidol yn hyderus i ymchwilio i wybodaeth, cwblhau cwisiau, dadansoddi canlyniadau a datblygu medrau trin data sylfaenol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n gadarnhaol â chyfoedion, staff ac ymwelwyr, gan ddangos cynnydd cryf mewn rhyngweithio cymdeithasol ac annibyniaeth ers iddynt ymuno â'r ysgol. Pan fyddant mewn gwersi, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu.

### Ciplun: Meithrin llythrennedd emosiynol trwy siarad targedig

Yn Pathways Learning, mae cynorthwywyr cymorth dysgu (CCD) yn cyflwyno ymyriadau sy'n para 15 munud i feithrin medrau cyfathrebu disgyblion a'u dealltwriaeth o emosiynau ac ymddygiad. Trwy weithio ar adeg pan mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a phwyllog, mae'r CCD yn rhannu senario byr y maent yn ei drafod gyda'i gilydd.

Gellir arddangos hyn gan yr CCD yn darllen testun byr yn disgrifio dau berson ifanc mewn grŵp o dri ffrind yn siarad am drip dydd yr oeddent wedi bod arno gyda'i gilydd i wylio rasys beiciau modur. Wedyn, mae'r CCD yn gofyn cwestiynau am beth gellid ei dybio o'r stori a'r cyd-destun ehangach. Er enghraifft, bod o leiaf ddau ffrind yn mwynhau motorcrós; bod gwrando ar sgyrsiau pobl eraill yn y math hwn o sefyllfa yn briodol; a bod gan unigolion wahanol ddiddordebau sydd o bwys iddynt.

Mae'r ymyriadau hyn yn galluogi disgyblion i ymestyn meddwl trwy siarad a gwrando. Dros gyfnod, mae disgyblion yn dod yn fwy abl i gasglu ystyr o destun ysgrifenedig, sbardunau gweledol, tôn a gweithredoedd mewn storïau, ac yn defnyddio iaith emosiynol briodol yn gynyddol i esbonio'u rhesymu. Mae'r dull hwn yn helpu disgyblion i gryfhau eu dealltwriaeth a'u defnydd o iaith, y gallu i ddehongli ac ateb cwestiynau yn gysylltiedig â senarios cymdeithasol a datblygu llythrennedd emosiynol trwy ymgysylltiad pwyllog a phwrpasol â dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion wedi profi presenoldeb gwael ac ymgysylltu cyfyngedig mewn addysg orfodol, gan arwain at absenoldebau hir o ddysgu ffurfiol strwythuredig. Ers iddi agor, mae'r ysgol wedi cymryd gofal mawr i gynllunio cyfnod pontio pob disgybl i'w amgylcheddau dysgu newydd trwy feithrin ymddiriedaeth a hyder o'r newydd i ailymgysylltu â dysgu. Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o'r rhwystrau y mae eu disgyblion unigol yn eu profi ac yn defnyddio ehangder o ddulliau hynod bersonoledig sy'n cynnwys gweithio'n effeithiol gyda rhieni a rhanddeiliaid ehangach i alluogi presenoldeb cynyddol graddol.

O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud gwelliannau cryf yn eu presenoldeb dros gyfnod o gymharu â lleoliadau blaenorol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn mynychu'n ddigon rheolaidd i wneud cynnydd cyson.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar waith i olrhain cynnydd academaidd, lles ac anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae Cydlynydd ADY yr ysgol yn goruchwylio a monitro ystod eang o ymyriadau buddiol i gefnogi dysgu a lles disgyblion. Mae'r

cydweithio cryf hwn â staff addysgu a staff cymorth yn cefnogi gwelliannau'n effeithiol mewn meysydd targedig fel medrau cyfathrebu a medrau motor manwl.

Mae arweinwyr wedi datblygu tîm staff medrus ac ymroddgar. Maent yn modelu perthnasoedd parchus ac yn hyrwyddo cynhwysiant a dyheadau uchelgeisiol yn gyson ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan arweinwyr ac yn gwerthfawrogi'r gwaith tîm a'r cyfathrebu cryf ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr wedi datblygu set o bolisïau i arwain gwaith yr ysgol, gyda chyfeiriad priodol at ganllawiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn adlewyrchu'n gyson y cyd-destun unigryw neu'r arfer bersonoledig gref sy'n amlwg ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol ac mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd eu rôl i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae arweinwyr wedi sefydlu systemau clir, gan sicrhau bod hyfforddiant rheolaidd ar waith a bod diogelwch a lles disgyblion yn ganolog i bob penderfyniad.

Mae cydweithio agos â'r gwasanaeth tiwtora sydd wedi'i gyd-leoli yn yr ysgol yn ymestyn cyfleoedd ar gyfer staff a disgyblion, fel ei gilydd. Mae staff yn elwa ar ystod o ddysgu proffesiynol sy'n sicrhau bod ganddynt y medrau a'r wybodaeth i ddeall a diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol.

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

## Argymhellion newydd

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau polisïau'r ysgol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ei darpariaeth arbenigol yn gyson ac yn darparu arweiniad clir

## Diogelu

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, byddai'n ddoeth dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu'r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2026